

# Darpariaeth i'r Digartref ym Mhen-y-bont ar Ogwr (Gaeaf 2018)

**Dosbarthu brecwast 6.30am - 9am**  
**Hwb galw i mewn (10 Stryd y Parc)**  
**9.30am - 12pm dydd Llun-dydd Gwener**

**Gwasanaeth prynhawn (The Zone)**  
**1.30pm - 4.30pm dydd Llun-dydd Gwener**  
**a 9am-12pm dydd Sadwrn**

**Darpariaeth Floor Space**  
**(Prosiect Kerrigan, Ystad Ddiwydiannol**  
**Pen-y-bont ar Ogwr) 8pm - 8am**

**Cofrestru / Aseiad Floor Space**  
**(Uned 2, Canolfan Stryd Bracla)**  
**3pm - 5pm**

**Tim Ymyrraeth Rough**  
**Sleepers (The Wallich)**  
**Ff: 01656 674184**

Mae'r 'Dosbarthiad Brecwast' yn digwydd rhwng 6.30am – 9am, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae staff yn cefnogi cleientiaid drwy ddarparu cymorth dyngarol ar ffurf brecwast, diodydd poeth, sachau cysgu, diillad cynnes, pethau ymolchi a'u cysylltu â darpariaeth lleol bellach.

Mae'r ganolfan galw i mewn (10 Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AX) yn darparu amgylchedd diogel oddi ar y strydoedd i hwyluso gwaith cymorth. Mae cyfleusterau ymolchi a hefyd mynediad at ffôn a chyfrifiadur. Mae defnyddwyr y gwasanaeth yn gallu cael mynediad at ganolfan galw i mewn i'r digartref rhwng 9.30am – 12pm dydd Llun – dydd Gwener.

**Galw i mewn yn y**  
**prynhawn –**  
**The Zone**  
**Ff: 01656 647891**

Mae sesiwn galw i mewn yn y prynhawn ar gael yn 'The Zone' 46–48 Dunraven Place, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1JB rhwng 12 Tachwedd 2018 a 31 Mawrth 2019 dydd Llun – dydd Gwener 1.30pm – 4.30pm a dydd Sadwrn 9am – 12pm.

Bydd defnyddwyr y gwasanaeth digartref yn cael cynnig bwyd a diod gynnes mewn amgylchedd cynnes a chyfeillgar.

Noder na fydd sesiwn galw i mewn yn y prynhawn ar gael ar 1 Rhagfyr na rhwng 24 Rhagfyr a 1 Ionawr. Ar y diwrnodau hyn, bydd darpariaeth ar gael drwy Hwb Gwalia a Floor Space.

**Floor Space – (Gwalia)**  
**Ff: 01656 656611 (Hwb) neu**  
**01656 662227 (Kerrigan)**

Darpariaeth mynediad uniongyrchol yn darparu amgylchedd diogel, sych a chynnes i gysgu. Mae darpariaeth ar gael o 8pm – 8am, 365 diwrnod y flwyddyn. Bydd y gwasanaeth yn ymestyn ei oriau agor ar Wyliau Banc ac ar adegau pan fydd angen, megis mewn tywydd eithafol.

Naw uned gyda chapasiti i gynyddu yn ystod adegau pan fydd angen e.e mewn tywydd eithafol. Ystafelloedd ar wahân i ddynion a menywod.

Mae lle yn cael ei ddyrannu fesul noson. I gael mynediad at ddarpariaeth, rhaid i ddefnyddwyr y gwasanaeth fod yn Hwb Cymorth Lleol Gwalia (Uned 2, Canolfan Stryd Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1DD) rhwng 3pm – 5pm. Mae'r gwasanaeth ei hun yn cael ei ddarparu yn The Elms, Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SY.

Ochr yn ochr â'r gwasanaeth mae swyddog ymgysylltu sy'n darparu cymorth dwys ac ymarferol i'r sawl sy'n cael mynediad at Floor Space.

**Street**  
**Link**

**Street Link**  
[www.streetlink.org.uk](http://www.streetlink.org.uk)

Os ydych yn poeni ynglŷn â rhywun sy'n ddigartref, gallwch ddefnyddio ap neu wefan StreetLink i anfon rhybudd. Mae'r manylion rydych yn eu darparu yn cael eu hanfon at yr awdurdod lleol neu wasanaeth allgymorth a fydd yn chwilio am yr unigolyn ac yn ei gysylltu â chymorth.



**Cyngor Bwrdeistref Sirol**  
**Pen-y-bont ar Ogwr –**  
**Datrysiaidau Tai Ffôn:**  
**Ff: 01656 643643**

Gall cais digartrefedd gael ei wneud 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Bydd y Tim Datrysiaidau Tai yn asesu ac yn cynghori ar opsiynau gan gynnwys unrhyw hawl i lety dros dro. Mae gwasanaeth 'y tu allan i oriau' yn darparu cyngor ac yn asesu'r hawl i lety dros dro.